CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

SAFONAU PARCIO



J.R. WOODCOCK MRTPI
Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio
Cyngor Sir Ynys Môn

Canllawiau Cynllunio Atodol – Safonau Parcio
Mabwysiadwyl gan Cyngor Sir Ynys Môn ar 4 Mawrth 2008

Cynnwys

1.0 Rhagymadrodd
2.0 Cyd-destun Polisi
3.0 Amcanion Polisi Cenedlaethol
4.0 Egwyddorion Allweddol y polisi cenedlaethol
5.0 Rheolau Euraid i bob Lleoliad – 'Sut?' nid dim ond 'Faint?'
6.0 Y Safonau o ran Darpariaeth Parcio Ceir
7.0 Nodiadau Esboniadol
8.0 Darpariaeth Parcio Beiciau
9.0 Cynlluniau Teithio
10.0 Parcio i bobl sydd ag Anabledd
11.0 Gosodiad Lleoedd Parcio
12.0 Ystyriaethau Dylunio
13.0 Ffyrdd o Drefnu Llefydd Parcio
14.0 Camerâu Goruchwylio
15.0 Meysydd Pêl-droed
16.0 Darllen Pellach
17.0 Cysylltiadau

RHAGYMADRODD

1.0 Rhagymadrodd

1.1 Wrth sefydlu fframwaith y cynllun datblygu ar gyfer Ynys Môn, mae'r Cyngor Sir wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau canllawiau cynllunio atodol (CCA). Caiff canllawiau cynllunio atodol eu cyhoeddi i roi canllawiau manwl ar faterion cynllunio allweddol. Byddant yn ystyriaeth berthnasol pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.2 Mae'r canllaw dylunio hwn yn rhan o'r gyfres hon o ganllawiau cynllunio atodol ac mae'n darparu canllawiau ar y **SAFONAU PARCIO** ar gyfer cerbydau modur a beiciau ar ddatblygiadau newydd.

1.3 Fe'i darparwyd i sicrhau bod pob parti sydd â diddordeb mewn gwaith datblygu – swyddogion y cyngor, dylunwyr, swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu, datblygwyr, asiantaethau llywodraeth a thirfeddianwyr – yn cydnabod yr angen i sicrhau bod lleoedd parcio i geir a beiciau yn rhan annatod o ddatblygiadau newydd ond bod gofyn iddynt fod yn addas i'w pwrpas ac wedi cael eu dylunio'n dda.

1.4 Yr her sy'n wynebu pawb ohonom yw ceisio lleihau effaith defnyddio cerbydau preifat ar ein hamgylchedd ac mae rheoli'r patrwm parcio ceir yn un arf er mwyn cyflawni hyn.

1.5 Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, nid yw'r dulliau teithio amgen ar gael yn hwylus a rhaid wrth hyblygrwydd felly. Mae'r canllawiau'n sefydlu paramedrau clir a gellir ystyried safonau parcio a materion dylunio cysylltiol yn briodol yng ngoleuni'r canllawiau hynny.

1.6 Dylai'r wybodaeth sydd yn y canllawiau hyn gael ei hystyried mewn perthynas â'r materion allweddol sy'n codi yng nghyd-destun datblygiadau unigol. Mae'r argymhellion yr un mor gymwys i ddatblygiadau newydd ag i gynlluniau i addasu adeiladau sy'n bodoli'n barod. Hefyd, mae'r wybodaeth yn berthnasol i adeiladau domestig, masnachol, diwydiannol ac amaethyddol.

1.7 Yn bwysig, mae'r Cyngor am i ddatblygwyr integreiddio darpariaeth barcio ddigonol ag egwyddorion dylunio da ym mhob datblygiad ar Ynys Môn. Mae'r ffynonellau ymchwil a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r CCA hyn yn awgrymu bod "sut" y caiff lleoedd parcio eu darparu cyn bwysiced â "faint" o leoedd a ddarperir yn aml. Mae'r Cyngor Sir yn y broses o baratoi CCA ar Ddylunio a mae yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu datganiadau "Dylunio a Mynediad" ers fis Mehefin 2007 wrth cyflwyno ceisiadau cynllunio sylweddol.

2.0 Cyd-destun Polisi

2.1 Mae CCA yn ceisio darparu canllawiau mwy manwl ynglŷn â pholisïau sydd wedi'u cynnwys mewn polisi cynllunio lleol. Y mannau cyfeirio i'r CCA hyn yw:

Development Plan	Year
Cynllun Fframwaith Gwynedd	**1993**
Polisi FF12 sy'n ymdrin â "y ddarpariaeth barcio fydd yn ofynnol mewn cysylltiad â phob math o ddatblygiad, ailddatblygiad neu newid defnydd hyd at y safonau cyfredol priodol".	
Cynllun Lleol Ynys Môn	**1996**
Mae polisi 26 yn datgan "Bydd disgwyl i gynigion datblygu gynnwys darpariaeth barcio ddigonol a phriodol ar y safle".	
Y Cynllun Datblygu Unedol a Ataliwyd	**2005**
Mae ystyriaeth berthnasol o bwys wedi cael ei nodi hefyd ym mholisi TR10 o'r CDU (a ataliwyd), sy'n datgan: "Bydd disgwyl i gynigion datblygu gydymffurfio â'r safonau parcio ar gyfer cerbydau modur a beiciau. Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y caniateir datblygiadau os gellir dangos bod modd diwallu'r gofynion parcio yn foddhaol oddi ar y safle, un ai drwy ddarpariaeth uniongyrchol neu drwy dalu symiau cyfnewid".	

3.0 Amcanion Polisi Cenedlaethol

3.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 sy'n rhoi'r fframwaith polisi cenedlaethol i Drafnidiaeth, yn cynnwys safonau parcio. Fel rhan o'r symudiad tuag at ddatblygu cynaliadwy, cyngor TAN 18 yw y:

- Dylid defnyddio'r safonau parcio ceir uchaf ar lefel ranbarthol a lleol fel ffurf o reoli'r galw. Ni fydd troi isafswm y safonau yn uchafswm yn briodol o anghenraid.

- Dylid felly ystyried tystiolaeth yn seiliedig ar effeithiau tebygol y gwahanol lefelau parcio ar gyfer pob defnydd tir, gan gynnwys ystyried lleoliadau perthnasol y defnyddiau tir a'u hargaeledd dilynol.

- Rhaid nodi'n llawn o fewn unrhyw strategaeth barcio gaiff ei mabwysiadu gyfanswm y llefydd parcio sydd eu hangen i rai gydag anableddau yn nhermau maint, lle a chyfran o'r holl lefydd parcio.

- Mae cyfarwyddyd cenedlaethol ar barcio cynhwysol i'w gael mewn cyfarwyddyd ar ddatganiadau dylunio a mynediad sydd i'w gyhoeddi yn 2007 (Gweler taflen Cyngor Traffig 5/95, Parcio ar gyfer Pobl Anabl).

3.2 Ar y mater hwn y mae rhaid i ardal wledig gan mwyaf fel Ynys Môn, sydd â lefel uchel o berchenogaeth car, wyro rhywfaint oddi wrth y canllawiau cenedlaethol. Er bod modd ymgyrraedd at ddyheadau'r polisi cenedlaethol, realiti bywyd mewn ardaloedd gwledig yw bod lefel uchel o ddibyniaeth ar y car gan nad oes dulliau teithio eraill ar gael yn hwylus.

3.3 Mae'r cyfraddau perchenogaeth car yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae problemau neilltuol yn codi ar ystadau tai lle mae'r galw am barcio yn fwy na'r ddarpariaeth ac mewn ardaloedd gwledig eraill na chawsant eu dylunio i atebion gofynion modern.

3.4 Oherwydd natur wasgaredig poblogaeth yr Ynys, dylid bod yn ofalus wrth gymhwyso'r safonau sy'n pennu uchafswm i ddatblygiadau mewn ardaloedd ar Ynys Môn lle nad oes gwasanaeth cludiant cyhoeddus da. Lle na phennir yr uchafswm, bydd gofyn i'r datblygwyr gyfiawnhau hyn.

3.5 Byddwn yn ymdrechu i annog datblygwyr safleoedd mawr mewn lleoliadau strategol i ddarparu ardaloedd ar gyfer cynlluniau rhannu ceir. Mae Nodiadau Cyngor eraill fel TAN 4 ar Adwerthu a Chanol Trefi a TAN 13 ar Dwristiaeth hefyd yn cyfeirio at safonau parcio.

4.0 Egwyddorion Allweddol y polisi cenedlaethol

- Mae polisi cynllunio yn ceisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
- Mae mabwysiadu'r egwyddor o safonau parcio sy'n pennu uchafswm yn ffordd o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
- Dylai'r safonau sy'n cael eu cymhwyso adlewyrchu gwahanol anghenion datblygiadau preswyl, adwerthu a thwristiaeth a datblygiadau masnachol eraill.

5.0 Rheolau Euraid i bob Lleoliad – 'Sut?' nid dim ond 'Faint?'

5.1 Ystyriwch ansawdd y stryd uwchlaw popeth arall Felly, mae ble mae'r parcio'n cael ei roi yn bwysicach na faint. Nid oes un ateb sy'n rhagori bob tro. Cyfuniad o barcio ar y llain tir, oddi ar y llain ac ar y stryd yw'r ateb, yn dibynnu ar leoliad, topograffi a'r farchnad.

5.2 Ail-ddarganfyddwch y stryd fel maes parcio hyfryd - mae pobl yn deall sut mae'n gweithio, mae'n effeithlon ac mae'n gwneud y stryd yn fwy prysur ac yn fwy diogel. Hybwch gymaint â phosibl o weithgaredd rhwng y stryd a'r tŷ i greu strydoedd mwy diogel a mwy cyfeillgar. Fel arfer nid oes digon o bobl yn symud o gwmpas mewn ardaloedd preswyl newydd.

5.3 Peidiwch â pharcio yng nghefn y bloc nes bydd y posibiliadau parcio ar y stryd ac ar y ffrynt wedi cael eu disbyddu. Dylid defnyddio'r ffordd bengaead / cwrt yn y cefn fel ychwanegiad at ddarpariaeth barcio ar y

stryd, nid i'w disodli. Ni ddylech ddyrannu mwy na hanner y lleoedd parcio.

5.4 Erbyn hyn mae tri math o barcio ar y stryd: parcio nad yw'n cael ei reoli, parthau parcio a reolir lle mae modd diffinio'r lleoedd yn ôl defnyddiwr a/neu amserau; a pharthau parcio cyfyngedig lle nad yw'r rheolaeth barcio bositif yn dibynnu ar linellau melyn. Dylech ddarparu lleoedd parcio beiciau ym mhob darpariaeth barcio sy'n saff a diogel. Peidiwch ag anghofio egwyddorion Diogelu drwy Ddylunio.

Ffynhonnell: Car Parking What Works Where – English Partnership (2006)

6.0 Y Safonau o ran Darpariaeth Parcio Ceir

6.1 Seilir y safonau ar Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1987 (fel y'i diwygiwyd).

MATH O DDEFNYDD TIR	SAFON
A1 SIOPAU – Adwerthu nwyddau i'r cyhoedd e.e. siopau, swyddfeydd post, asiantaethau teithio a thocynnau Adwerthu Bwyd Siopau Bach (e.e. Swyddfa Post, Siopau Teithio) Adwerthu ar wahân i fwyd	 1 lle car y 14m^2 o arwynebedd llawr crynswth 1 lle car y 15m^2 o arwynebedd llawr crynswth 1 lle car y 20m^2 o arwynebedd llawr crynswth
A2 GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL – E.e. gwasanaethau ariannol, banciau, cymdeithasau adeiladu.	1 lle car y 6m^2 o arwynebedd llawr crynswth
A3 BWYD A DIOD (e.e. tai bwyta a chaffis)	Preswylwyr : 1 lle car y 4m^2 o arwynebedd llawr net Staff : 1 lle car i bob aelod staff
A4 – **SEFYDLIADAU YFED** – E.e tafarndai, bar gwin	Preswylwyr : 1 lle car y 4m^2 o arwynebedd llawr net Staff : 1 lle car i bob aelod staff
A5 – **PRYDAU POETH I'W CLUDO YMAITH** – Eiddo gyda'r prif bwrpas o werthu prydau poeth i'w cludo ymaith.	Preswylwyr :1 lle car y 4m^2 o arwynebedd llawr net Staff : 1 lle car i bob aelod staff
B1 BUSNES – a) Swyddfeydd, nad yw'n ddefnydd o fewn Dosbarth A2 (Gwasanaethau Ariannol) b) Ymchwilio a datblygu cynnyrch neu brosesau c) Diwydiant ysgafn	1 lle car y 30m^{2}o arwynebedd llawr crynswth
B2 DIWYDIANT CYFFREDINOL – Defnydd ar gyfer proses ddiwydiannol ar wahân i rai o fewn B1.	1 lle car y 50m^{2}o arwynebedd llawr crynswth

B8 STORIO A DOSBARTHU – Defnydd ar gyfer storio neu ganolfan ddosbarthu	1 lle car y 100m^2 o arwynebedd llawr crynswth
C1 GWESTYAU – Defnydd fel gwesty neu lety ymwelwyr, lle nad oes elfen sylweddol o ofal.	1 lle car y llofft
C2 SEFYDLIADAU PRESWYL – Ysbytai, cartrefi nyrsio neu ysgol breswyl	1 lle car fesul 3 llofft. Dylai 20% fod yn lleoedd i yrwyr anabl Staff : 1 lle car i bob aelod staff
C3 ANHEDDAU - Defnyddir fel annedd (boed yr unig neu'r prif le byw ai peidio)	
1 llofft	1 lle car yr uned
2 lofft	1.5 lle car yr uned (parcio cymunedol) neu 2 le car yr uned (dim parcio cymunedol)
3 a 4 llofft	3 lle car yr uned
5 llofft	4 lle yr uned
Tai gwarchod	1 lle car fesul 2 uned ac 1 lle fesul aelod staff preswyl. Mae angen mynediad i ambiwlansys/cerbydau gwasanaeth hefyd
Llety myfyrwyr	1 lle car fesul 5 llofft 5 lle parcio i ymwelwyr
D1 SEFYDLIADAU DIBRESWYL	
a) Gwasanaethau meddygol neu iechyd	2 le car fesul ystafell ymgynghori
b) Addysg, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd	2 lle car yr ystafell ddosbarth
c) Colegau chweched dosbarth ac addysg bellach	1 lle car i bob aelod staff dysgu 1 lle car i bob 5 myfyriwr llawn amser
d), (e) ac (f), Orielau Celf, Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd	1 lle car y 30m^2 o arwynebedd llawr crynswth
D*2 YMGYNNULL A HAMDDEN* (Sinema, neuadd gyngerdd, bingo, neuadd ddawns, canolfan chwaraeon).	1 lle car fesul 4 sedd yn yr awditoria neu 1 lle car y 15m^2 o arwynebedd llawr crynswth i neuadd ddawns neu ganolfan chwaraeon.
SUI-GENERIS - Defnydd ar ei ben ei hun, a bydd angen caniatâd cynllunio i newid y defnydd. Yn cynnwys theatrau clybiau nos, a chlybiau warws adwerthu.	Penderfynir ar gyfran y llefydd parcio ar sail unigol.

7.0 Nodiadau Esboniadol

7.1 Y safonau parcio ceir yw'r uchafswm i bob defnydd tir oni bai fod amgylchiadau eithriadol a fyddai'n achosi problemau o ran diogelwch y ffyrdd neu dagfeydd. Lle nad yw'r uchafswm yn cael ei ddarparu, bydd gofyn i'r datblygwr ddangos pa mor niferus fydd y siwrneiau i'r safle ac, os yw'r siwrneiau hyn yn fwy na'r ddarpariaeth barcio arfaethedig, sut y darperir ar gyfer y diffyg fydd yn bodoli yn sgil hynny. Ymysg yr atebion

posib mae Cynllun Teithio a/neu ddarparu swm cyfnewid am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor megis cyfraniad tuag at welliannau i feysydd parcio cyhoeddus (e.e. gwell goleuadau neu ddiogelwch), creu meysydd parcio ychwanegol neu wasanaeth parcio a theithio. Caiff y swm cyfnewid ei gyfrifo o gost y tir a chost creu'r maes parcio.

7.2 Bydd amrywiadau'n cael eu caniatáu yng ngoleuni amgylchiadau lleol e.e. bod lle parcio cyhoeddus ar gael wrth law neu fod cludiant cyhoeddus ar gael.

7.3 Nid yw garejys yn cyfrif fel darpariaeth barcio gan ei bod yn bosibl iawn na fyddant ar gael.

7.4 Yr arwynebedd llawr crynswth yw cyfanswm arwynebedd llawr yr holl adeiladau ar y safle, yn cael ei fesur o'r dimensiynau allanol.

7.5 Yr arwynebedd llawr cyhoeddus yw'r arwynebedd y mae gan y cyhoedd yn gyffredinol fynediad iddo fel arfer, ond heb gynnwys toiledau ac ystafelloedd ymolchi.

7.6 Dylai lle parcio car fod yn 2.4 metr o leiaf o led.

7.7 Bydd lleoedd **parcio i feiciau modur** yn cael eu darparu fel rhan o gynlluniau. Yn gyffredinol, dylid darparu lle parcio i feiciau modur yn ôl 1 lle i bob 25 lle parcio. Fodd bynnag, caiff pob cynnig ei werthuso yn unigol er mwyn asesu'r angen am le parcio i feiciau modur.

7.8 Dylai ffracsiynau o leoedd parcio a gyfrifir o'r ffigurau hyn gael eu talgrynnu i fyny.

7.9 Bydd y ddarpariaeth barcio a gyfrifir ar gyfer **datblygiadau defnydd cymysg** yn amrywio yn ôl y math o ddefnyddiau sy'n cael eu cynnig. Mewn achosion lle mae'r defnyddiau cymysg yn digwydd yr un pryd fel arfer, bydd y lefelau sy'n gymwys i bob defnydd yn cael eu hychwanegu at ei gilydd.

7.10 Lle bydd y defnyddiau cymysg yn creu galw ar wahanol adegau o'r dydd, bydd y ddarpariaeth yn cael ei seilio ar y math o ddatblygiad sy'n cael ei ystyried yn brif ddefnydd ar y safle penodol hwnnw.

7.11 Er mwyn diwallu **anghenion pobl sydd ag anfantais gorfforol**, pobl eraill sydd ag anawsterau symudedd a'r rhai sydd â phlant ifanc, rhaid i 10% o'r holl leoedd parcio ceir gael eu darparu yn unol â'r 'safon symudedd' (o leiaf 3.6 metr o led).

7.12 Rhaid codi arwyddion ar ddim llai na 60% o'r lleoedd hyn i ddangos eu bod yn cael eu cadw ar gyfer pobl anabl yn unig.

8.0 Darpariaeth Parcio Beiciau

8.1 Rhaid i ddatblygiadau newydd wneud darpariaeth ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel. Mae cyfres o safonau gofynnol wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad. Mae'r rhain i'w gweld isod:

8.2 Dimensiynau Nodweddiadol Beic 1.8m (H) x 0.6m (Ll)

MATH O DDEFNYDD TIR	NIFER O LEOEDD SY'N OFYNNOL
Siopau	
Siopau hwylus bach	1 y 100m^2 allc *(neu ran o hynny)*
Uwchfarchnadoedd bwyd	1 y 150m^2 allc *(neu ran o hynny)*
Adwerthu ar wahân i fwyd	1 y 200m^2 allc *(neu ran o hynny)*
Banciau, cymdeithasau adeiladu, siopau betio a swyddfeydd eraill a geir mewn ardaloedd siopa	1 y 60m^2 allc *(neu ran o hynny)*
Unedau gwerthu bwyd a diod	1 y 60m^{2}allc *(neu ran o hynny)*
Defnyddiau Diwydiannol	
Defnyddiau swyddfeydd gweinyddol, ymchwil a datblygu	1 y 350m^2 allc *(neu ran o hynny)*
Defnyddiau diwydiannol cyffredinol	1 y 500m^2 allc *(neu ran o hynny)*
Defnyddiau storio a dosbarthu	1 y 1000m^2 allc *(neu ran o hynny)*
MATH O DDEFNYDD TIR – PARHAD	**NIFER O LEOEDD SY'N OFYNNOL**
Defnyddiau Preswyl	
Gwesteiau a thai aros	1 fesul 10 gwely i westeion
Cartrefi gofal preswyl, cartrefi nyrsio ac ysbytai	1 fesul 10 gweithiwr
Ysgolion preswyl, colegau preswyl a chanolfannau hyfforddi preswyl	1 fesul 10 aelod staff ac 1 fesul 5 myfyriwr
Anheddau	Dim safon wedi'i rhagnodi. Fodd bynnag, efallai y bydd gofyn am fannau cymunedol diogel a hwylus i barcio beiciau dan amgylchiadau priodol (e.e. datblygiadau dwysedd uchel gyda darpariaeth parcio ceir gyfyngedig)
Defnyddiau Cymunedol	
Ysgolion cynradd ac uwchradd	4 fesul ystafell ddosbarth
Colegau chweched dosbarth ac AB	1 y 35m^2 allc
Canolfannau meddygol ac iechyd	2 fesul ystafell ymgynghori
Defnyddiau Hamdden	
Orielau celf, amgueddfeydd a llyfrgelloedd	1 y 150m^2 allc
Sinemâu, canolfannau hamdden, neuaddau bingo, neuaddau cyngerdd	1 y 75m^2 allc

D.S. allc = arwynebedd llawr crynswth

Dylai isafswm o 1 lle gael ei ddarparu ym mhob dosbarth.

9.0 Cynlluniau Teithio

9.1 Bydd y Cyngor yn annog cynlluniau teithio yn gyffredinol ond mae'n rhagweld, yn yr ardaloedd mwy trefol, fod modd eu darparu gan leihau'r ddibyniaeth ar y car.

9.2 Bydd y cynllun teithio yn dangos sut mae modd integreiddio defnyddiau nad ydynt yn dibynnu ar gar – cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus – gyda'r datblygiad i reoli/lleihau'r nifer o geir sy'n cael eu parcio.

9.3 Mae'r Cyngor Sir wedi llofnodi cytundeb Newid Hinsawdd Cymru. Mae cynlluniau teithio yn un mecanwaith y gall yr adran gynllunio ei ddefnyddio i helpu i ymateb i'r her o ddatblygu mewn modd mwy cynaliadwy a newid yr arferion cyfredol er mwyn gwneud lles o safbwynt newid yn yr hinsawdd.

9.4 Llofnodwyd Ymrwymiad Cymru i ymdrin â Newid yn yr Hinsawdd gan Arweinydd y Cyngor. Mae'n cydnabod, ymysg pethau eraill, fod "angen i awdurdodau lleol chwarae eu rhan yn llawn ar lefel leol, gan arwain ymateb Cymru i'r newid yn yr hinsawdd a'i roi ar waith". Cytunodd y Cyngor i "annog trigolion a busnesau lleol i weithredu i ostwng lefel yr allyriannau nwyon tŷ gwydr".

10.0 Parcio i bobl sydd ag Anabledd

10.1 Mae Deddf Gwahaniaethu o ran Anabledd 1995 yn dweud na ddylid trin pobl gyda phob math o anableddau yn llai ffafriol nag eraill. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod pob ardal barcio'n cyfarfod ag anghenion pawb, gan gynnwys rhai gydag anableddau.

10.2 Rhaid nodi gofynion parcio pobl anabl a sicrhau'n arbennig bod nifer ddigonol o lefydd parcio wedi'u dylunio'n addas yn cael eu darparu mewn lleoliadau priodol.

10.3 Mae mynediad i bobl sydd ag anabledd yn flaenoriaeth yn y trefniadau parcio ar gyfer datblygiadau newydd.

10.4 Rhaid darparu digon o leoedd parcio ar gyfer defnyddwyr o'r fath a dylent gael eu dylunio yn unol â'r safon ofynnol a bennir yn y CCA hyn.

10.5 Bydd arwyddion yn cael eu codi ar leoedd parcio i ddefnyddwyr anabl yn dynodi mai ar gyfer pobl anabl yn unig y mae'r lleoedd hyn.

11.0 Gosodiad Lleoedd Parcio

11.1 Gwahanol ffyrdd o drefnu 12 lle. Mae'r lleoedd unigol yn 4.8m x 2.4m.

11.2 Rhaid i system barcio letraws fod ar system gylchdroi unffordd gyda lle troi digonol.

12.0 Ystyriaethau Dylunio

12.1 Mae TAN 12 : Dylunio yn darparu cyfarwyddyd cyffredinol ar ddyluniad datblygiadau newydd a'r angen am ddatganiadau dylunio. Mae yna le i safonau lleol a chyfarwyddyd dylunio, yn arbennig yng nghyswllt creu a chadw unigrywiaeth lleol.

12.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gadw a gwella rhinweddau esthetig cyffredinol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ardaloedd cadwraeth.

12.3 Rhaid rhoi ystyriaeth i Strategaeth Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac i sawl Gwerthusiad Cymeriad Ardal Cadwraeth wrth gyflwyno cynigion am feysydd parcio yn yr ardaloedd hyn.

12.4 Bydd y Cyngor yn falch o weld gwaith dylunio arloesol sy'n parchu cymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ardaloedd cadwraeth. Er enghraifft, bydd defnyddio deunyddiau naturiol megis cerrig rhydd yn toddi i mewn i'r gosodiad cyffredinol ac fe ddylid ei ddefnyddio yn lle wynebu gyda tarmac lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

12.5 Argymhellir cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais gydag Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirlun y Gwasanaeth Cynllunio. Dylid ymgynghori hefyd gydag Adain Cefn Gwlad y Gwasanaeth ynglŷn â chynigion o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

13.0 Ffyrdd o Drefnu Llefydd Parcio

Lleiafswm Maint Llefydd Parcio



Lled Llwybrau Cylchrediad	
	Rhaid i Led Llwybr Cylchrediad Un Ffordd fod yn 3 metr Rhaid i Led Llwybr Cylchrediad Dwy Ffordd fod yn 6 metr.

Parcio Cyfochrog	
	Parcio yn gyfochrog i'r gerbydlon (2.4 metr x 6.0 metr). Rhaid cael bwlch o 5.4 metr o leiaf rhwng y ddwy res o lefydd parcio.

Parcio 30 ^{o}	
	Parcio 30 gradd (2.4 metr x 4.7 metr). Rhaid cael bwlch o 3.7 metr o leiaf rhwng y ddwy res o lefydd parcio.

Parcio 45 ^{o}	
	Parcio 45 gradd (2.4 metr x 4.8 metr). Rhaid cael bwlch o 3.6 metr o leiaf rhwng y ddwy res o lefydd parcio.

Parcio 60 ^{o}	
	Parcio 60 gradd (2.4 metr x 4.8 metr). Rhaid cael bwlch o 4.2 metr o leiaf rhwng y ddwy res o lefydd parcio.

Parcio 90 ^{o}	
	Parcio 90 gradd (2.4 metr x 4.8 metr). Rhaid cael bwlch o 6.0 metr o leiaf rhwng y ddwy res o lefydd parcio.

14.0 Camerâu Diogelwch

14.1 Mae'n bwysig nad yw maes gweledegdd y Camerâu Diogelwch yn cael ei guddio gan goed, llwyni na chan unrhyw offer sydd o fewn meysydd parcio.

14.2 Rhag i faes gweledegdd Camerâu Diogelwch gael ei guddio, anogir ymgeiswyr i drafod gosodiad unrhyw gynlluniau plannu ac arwyddion gyda'r Gwasanaeth Cynllunio cyn cyflwyno cynnig.

15.0 Meysydd Pêl-droed

15.1 Rhaid gwneud darpariaeth barcio ddigonol ar gyfer y meysydd pêl-droed heb stadiwm ar Ynys Môn.

15.2 Rhaid trafod niferoedd y llefydd parcio ceir a pharcio bysus gyda'r Swyddog Achos cyn cyflwyno cais a bydd yn dibynnu ar faint y pentref/tref.

15.3 Rhaid i'r mannau parcio a'r llefydd troi gael eu cwblhau yn hollol unol â manylion y cais fydd wedi ei ganiatáu.

15.4 Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gyda darpariaeth barcio gyfyngedig ar y safle cyn belled ag y ceir cyfiawnhad o fewn y cais, fydd yn dangos bod cyfleusterau parcio arall yn agos i'r safle.

16.0 Darllen Pellach

Car Parking: What Works Where – English Partnership (2006)
Y Llawlyfr Strydoedd – Cymunedau a Llywodraeth Leol – Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007)
Residential Car Parking Research – Communities and Local Government (2007)
Nodyn Cyngor Technegol 12 : Dyluniad – Llywodraeth y Cynulliad (2002)
Nodyn Cyngor Technegol 18 : Cludiant – Llywodraeth y Cynulliad (2007)
Safonau Parcio Cymru 2007 (Ymgynghoriad Drafft) – CCS Cymru (2007)

17.0 Cysylltiadau

Comisiwn Dylunio Cymru	www.dcfw.org
Comisiwn Hawliau Anabledd	www.drc-gb.org
Cyngor Sir Ynys Môn	www.anglesey.gov.uk
Portal Cynllunio	www.planningportal.gov.uk
Yr Arolygaeth Gynllunio	www.planning-inspectorate.gov.uk
Sefydliad Cynllunio Tref Prydeinig	www.rtpi.org.uk
Llywodraeth Cynulliad Cymru	www.wales.gov.uk

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

SAFONAU PARCIO

J.R. WOODCOCK MRTPI
Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio
Cyngor Sir Ynys Môn